

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 14 Ionawr, 2021 am 19.00

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Megan Tomos

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Geraint Hughes.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Wyn Bowen Harris a Dafydd K Jones.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr, 2020.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am diweddariad, ac i nodi bod y ffermwr wedi cynnig cwblhau'r gwaith ei hun pe bai Cyngor Gwynedd yn darparu'r pibellau. Cyng. Jên Morris wedi cysylltu yn uniongyrchol ynglyn a'r draen, yn ogystal ag adrodd am bobl ddim yn dilyn y llwybrau cyhoeddus.

Wal Maes y Groes – Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y bydd Dinas Contracting yn cwblhau'r gwaith cyn gynted a phosib.

Clwb Rygbi Bangor – pryderus am y golau llachar sydd ar y caeau dros y gaeaf. Traffig ar yr A55 yn cael eu dallu. Y Clerc wedi derbyn ymateb gan yr adran gorfodaeth, angen codi'r mater gyda'r adran Iechyd a'r Amgylchedd. Y Clerc i gysylltu ar Clwb drwy cyfryngau cymdeithasol i amlygu pryderon y Cyngor.

Ysbwriel/Biniau– 3 bag ysbwriel oedd wedi gael ei adael yn ngwaelod Parc Main dal yno, y Clerc i cysylltu a Cyngor Gwynedd eto, a chodi'r mater gyda Cyng. Dafydd Meurig.

Tai'n Lon – wedi derbyn cadarnhad y bydd Dinas Contracting yn dechrau'r gwaith ar y 18 Ionawr 2021.

Terfynau wal mynydd ochrau Dol Awen a Thy'n y Maes – Stad Penrhyn wedi ymateb i egluro bod hwn yn fater i'r tenant ac eu bod nhw yn parhau i siarad gyda Mr David Williams mewn ymgais i gael wedi'i gwblhau. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Paragleidio ar Moel Wnion – wedi derbyn ymateb gan Alan Pritchard, Warden Parc Eryri – Alan wedi holi Dewi Roberts, Ymddiriedolaeth Cenedlaethol am y cytundeb. Y Clerc i ofyn am diweddariad, a'r Cyng. Kevin Williams i wneud ymholiadau.

Biniau halen – y Clerc wedi danfon y rhestr at Cyngor Gwynedd, ond nid yw y Cyngor i weld wedi cwblhau'r gwaith eto. Y Clerc i gysylltu a'r Cyngor a gofyn iddynt lenwi'r biniau cyn gynted a phosib.

Eglwys Llan – y contractwr heb ddechrau'r gwaith eto, y Clerc i holi am ddiweddariad.

Prosiect i Bartneriaeth Ogwen – y Clerc i holi Meleri Davies am ddiweddariad.

Llwybr Cyhoeddus rhwng Mignant i Tan y Marian – Cyng. Margaret Fernley wedi gael gwared o'r garreg peryglus.

Beicio yng Nghoedwig Ty'n Hendre – Llawer iawn yn defnyddio'r goedwig i feicio, mae wal ym mhen uchaf y goedwig wedi'i thynnu i lawr er mwyn ei gwneud hi'n haws i'r beiciau gael mynediad. Adroddwyd fod bobl cyn belled a Fanceinion yn ymweld a'r safle, ac hynny yn ystod cyfnod clo covid. Y Clerc wedi ysgrifennu at Stad Penrhyn i adrodd pryderon y Cyngor, y Clerc i ofyn am ddiweddariad. Y Clerc i ddanfôn yr ebost ymlaen at yr heddlu ac at Cyng. Dafydd Meurig.

Top Allt Ty'n Hendre – teiars wedi ei gadael yn yr afon. Y Clerc wedi hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru, fodd bynnag maent wedi gofyn i'r Clerc danfon yr manylion ymlaen i Cyngor Gwynedd, nid yw hyn yn gyfrifoldeb CNC.

5. Taliadau

Dim taliadau.

6. Adroddiad Cyllid

Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Rhagfyr. Derbyniwyd yr adroddiad.

7. Archeb 2021-22

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef £15,450.

8. Cae chwarae Tal y Bont

Grant Chwarae - Adroddwyd Cyng. Evan Jones ei fod wedi cyfarfod ar y safle gyda Cyng. Alun Thomas a chwmmni Griffiths ynglyn a'r posibilrwydd o greu trac rhedeg/beicio o amgylch y cae. Fodd bynnag, cadarnhawyd ar y 18 Rhagfyr fod y grant wedi ei ddyranu i gyd yn barod. Cadarnhawyd fod rhan helaeth or pres wedi gael ei ddyranu ar gyfer caeau chwarae yng ngofal Cyngor Gwynedd. Y Clerc i ysgrifennu at Cyngor Gwynedd i datgan ein siom ac ein bod heb gael cyfle teg i wneud cais, ac i nodi doedd dim digon o amser i gwblhau'r cais grant. Y Clerc i holi pwy enillodd y pres ac i holi os fydd grant tebyg ar gael yn y dyfodol agos.

Gardd Cymunedol – Cadarnhawyd fod Parc Cenedlaethol Eryri wedi clustnodi swm o £7,500 i'r prosiect Dyffryn Gwyrdd wario ar dair safle yn Nyffryn Ogwen - Llys Dafydd, Gardd 'Annie's' a Cae chwarae Talybont. Penderfynwyd y Cyngor eu bod yn hapus iawn i fynd ymlaen gyda'r prosiect, ac i ddanfôn manylion Cyng. Evan Jones ymlaen i Huw Davies, Rheolwr Prosiect Dyffryn Gwyrdd.

9. Y Mynydd

Nid oedd yn bosib gael diweddariad gan y Cyng. Wyn Bowen Harris. Y Clerc i gysylltu hefo Gethin Evans, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yn ogystal a threfnu cyfarfod o'r isbwyllgor Mynydd.

10. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – Grant Gardd Cymunedol – trafodwyd o dan pwynt 8.

11. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Nodwyd bod Cyng. Kevin Williams wedi cyfarfod ag Abbie Edwards, Ymddiriedolaeth Cenedlaethol. Adroddwyd y byddent yn gweithio ar gael giatiau newydd traddodiadol i'r Mynydd i atal beicwyr fynd yno, yn ogystal y thorri eithin a trin y llwybr fyny am Gyrn.

11. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0154/21/CC

Maes Carafannau Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n gorchymyn gwarchod coed

Penderfyniad: Ar y gweill.

C19/0950/21/LL

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Codi 30 tŷ sy'n cynnwys 15 fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio ynghyd a seilwaith cysylltiedig

Penderfyniad: Ar y gweill.

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

Penderfyniad: ar y gweill.

C20/0958/21/DT

Tan Lon Cottage, Ffordd Aber, Talybont

Codi estyniadau ffenestri cromen yn edrychiad blaen yr eiddo ynghyd a chreu llecyn parcio preifat o fewn y cwrttil.

Penderfyniad: ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:

C20/1071/21/CT

Pont Llan, Llanllechid

Cais ar gyfer gwneud torri 3 coeden cypreswydden a gwneud gwaith i goeden sycamorwydden oddi fewn i ardal gadwraeth Llanllechid

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

C21/0008/21/DT

27 Bro Emrys, Talybont

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr ochr ynghyd ac estyniadau unllawr to un codiad i flaen a chefn yr eiddo

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

12. Materion Brys

Sedd Wag – Y Clerc i hysbysu'r sedd wag cyn gynted a phosib.